

Ble mae Rosie nawr?

Enillodd Rosina Jones, neu Rosie, Fedal y Dysgwr yn Eisteddfod T 2020. Ar y pryd, roedd hi'n ddisgybl blwyddyn 13 yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn astudio Cymraeg, Hanes a Ffrangeg.

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae hi wedi cymryd blwyddyn allan o addysg achos y coronafirws ac yn gweithio rhan amser mewn canolfan ddringo yng Nghaerdydd. Mae hi dal yn gobeithio mynd i Brifysgol Bryte i astudio Ffrangeg ac Almaeneg yn mis Medi 2021.

Ond dydy'r flwyddyn ddiwethaf ddim wedi bod yn ddistaw iddi. Yn ogystal â gweithio yng Nghanolfan 'Boulders' pan oedd y ganolfan yn cael agor, buodd hi ar gwrs gyda sefydliad 'Uprising UK' sy'n dysgu pobl ifanc sut i ddefnyddio eu llais.

Yn dilyn y cwrs, dechreuodd hi a phedair ffrind dudalen ar Instagram o'r enw 'Swap Plastic'. Tudalen ydy hon sy'n annog pobl i ffeirio plastig am y blaned ac i fod yn ymwybodol o blastig yn eu bywydau.

Mae hi hefyd wedi bod yn brysur yn dysgu ffrind iddi, Lucy, i siarad Cymraeg. Chafodd Lucy ddim cyfle yn yr ysgol i ddysgu'r iaith ond mae Rosie wedi bod yn creu cyflwyniadau Pwerbwylt ac yn rhoi gwersi iddi. Maen nhw erbyn hyn yn gallu cynnal sgwrs fach syml yn Gymraeg.

Mae'r profiad yma wedi ei gwneud hi'n fwy pendant ei bod eisiau dod nôl i Gymru ar ôl y Brifysgol i fod yn athrawes.

Dros y cyfnod clo, llwyddodd Rosie i siarad Cymraeg gyda chymydog dros Skype. Mae rhai ffrindiau gyda hi mae hi wedi eu cyfarfod trwy'r ganolfan ddringo sy'n siarad Cymraeg ac mae wedi ei synnu gan y 'text talk' Cymraeg.

Dyweddodd, "Pan wyt ti yn dysgu iaith, dwyt ti ddim yn meddwl am bethau fel 'text talk' achos bod popeth yn eithaf ffurfiol. Felly dw i'n gweld hi'n ddoniol pan dw i'n cael neges gan fy ffrind Ffion sy'n denfyddio 'T' yn lle 'ti' neu 'V' yn lle 'fi'. Mae'n rhywbeth newydd i mi!"

Mae hi wedi gwylio llawer o deledu Cymraeg dros y cyfnod clo, i gadw yr eirfa yn fyw ac mae'n edrych ymlaen at weld pwy fydd yn ennill Medal y Dysgwyr yn yr Eisteddfod yr Urdd rithiol, Eisteddfod T, yn 2021.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen rhifyn haf 2020 cylchgrawn y Ganolfan, Hwyl yr Haf, sy'n cynnwys cyfweiliad gyda Rosie ar ôl iddi ennill y fedal yn Eisteddfod yr Urdd 2020.